

# Adrodd i rieni/gofalwyr – Ysgol Gynradd Glyncollen

## Cyflwyniad

Mae'r astudiaeth achos hon yn edrych ar sut y gwnaethom newid ein dull o adrodd wrth i ni symud tuag at gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr o dan ganllawiau newydd Cwricwlwm i Gymru. Mae'n edrych ar effaith y ffordd hon o weithio ar gefnogi teuluoedd yn ystod cyfnod cau ysgolion COVID-19 a sut y bydd yn trosi i gymorth dysgu cyfunol effeithiol.

## Cyd-destun gwreiddiol

Esblygodd ein trefniadau adrodd presennol dros amser wrth i ni ganolbwyntio ar drawsnewid asesu. Cyn y datblygiad, roedd adroddiadau yn ddatganiadau cyfarwydd a gynhyrchwyd ar raddfa eang drwy raglen olrhain ddigidol. Er i athrawon weithio'n galed i bersonoli'r adroddiadau hyn ar gyfer pob dysgwr, yn aml roedd rhieni/gofalwyr yn gweld yr adroddiadau'n ddryslyd, yn llethol a heb lawer o fudd adeiladol iddyn nhw na'u plant. Fel sy'n digwydd yn aml, dim ond diddordeb yn sylwadau personol yr athro a'r plentyn oedd gan y rhan fwyaf. Roedd y mwyafrif yn wir yn teimlo mai sylwadau ar les eu plentyn oedd yr agwedd fwyaf gwerthfawr. Roedden nhw'n teimlo hefyd y dylai adroddiadau gynnwys sylwadau cyffredinol ar agwedd eu plentyn at ddysgu, cynnydd ar draws y cwricwlwm a gwybodaeth am sut y gallent helpu gartref.

Y trefniadau statudol ar gyfer ysgolion o ran adrodd yw bod rhieni/gofalwyr yn derbyn adroddiad ysgrifenedig o leiaf unwaith y flwyddyn. Roedd ein rhieni/gofalwyr yn derbyn adroddiad ysgrifenedig unwaith y flwyddyn tua diwedd tymor yr haf yn dilyn dau gyfarfod wyneb yn wyneb a sesiwn croeso i'r dosbarth cyfan.

Wrth i ni drawsnewid asesu, roedden ni'n gwybod hefyd fod rhaid i ni ddarparu gwybodaeth a oedd yn glir a phwrpasol i rieni/gofalwyr ac athrawon.

## Trawsnewid

Roedd cam cyntaf datblygu'r broses adrodd yn cyd-daro â'r symudiad tuag at ddull 'naratif'. Gwnaethom roi'r gorau i adroddiadau a grëwyd gan raglenni digidol a dychwelwyd at ysgrifennu adroddiadau unigol. Gwnaethom gynnwys ein dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr yn y gwaith o adolygu ac ailysgrifennu ein polisi asesu. Roedd dysgwyr yn arbennig yn glir nad oedden nhw'n teimlo bod adroddiadau ysgol o unrhyw werth iddyn nhw

Y datblygiad nesaf i ni oedd ychwanegu sylwadau bob hanner tymor at ein hymarfer. Roedd y diweddariadau ysgrifenedig byr hyn yn galluogi'r rhieni/gofalwyr i fod yn fwy

gwybodus am gynnydd eu plant rhwng cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyn diwedd y flwyddyn ysgol.

## Adroddiadau presennol

Ein prif nod wrth gyflwyno adroddiadau yw cyfathrebu'n rheolaidd ac yn effeithiol ar gynnydd a'r camau nesaf, gan sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o gefnogi dysgu mewn partneriaeth â'r ysgol.

Erbyn hyn mae'r cylch adrodd ffurfiannol yn cynnwys:

- mis Medi: 'Beth Nesaf'? – cyfarfod dosbarth cyfan ar yr hyn y dylech ddisgwyl i'ch plentyn fod yn ei wneud eleni
- mis Hydref: Cynnydd 1 adroddiad ysgrifenedig
- mis Rhagfyr: Cynnydd 2 cyfarfod wyneb yn wyneb mis Chwefror: Cynnydd 3 adroddiad ysgrifenedig
- mis Ebrill: Cynnydd 4 cyfarfod wyneb yn wyneb
- mis Mehefin: Cynnydd 5 adroddiad ysgrifenedig
- mis Gorffennaf: gwybodaeth statudol ychwanegol yn unig.

Rydyn ni wedi darparu adroddiadau ysgrifenedig yn ddigidol yn rheolaidd, felly ni fydd symud i ddysgu wyneb yn wyneb ac o bell yn y misoedd sydd i ddod yn golygu llawer o newid i'r ffordd rydyn ni'n cyfathrebu â rhieni/gofalwyr. Yn ogystal â'r diweddariadau ysgrifenedig, byddwn yn ymgorffori cyfarfodydd rhithiol neu dros y ffôn nes ein bod ni mewn sefyllfa i gyfarfod wyneb yn wyneb er mwyn sicrhau bod ymgysylltu rheolaidd yn parhau.

Mae diweddariadau cynnydd yn osgoi jargon, yn osgoi dyblygu, yn osgoi rhestri o weithgareddau ac, mewn ymateb i gais gan rieni/gofalwyr, yn osgoi disgrifiadau o'r hyn mae'r dysgwyr wedi'i ddysgu. Nid yw diweddariadau'n canolbwyntio ar ganlyniadau na barn; yn hytrach, maen nhw'n canolbwyntio ar 'sut' a 'pham' yn hytrach na 'beth', ar y cynnydd a wnaed, ar ymddygiad dysgu plant a'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw gartref a fydd yn ychwanegu gwerth at yr hyn maen nhw'n ei wneud yn yr ysgol ac yn cynorthwyo cynnydd. Mae'r wybodaeth yn pwyntio'n glir at bedwar diben y cwricwlwm newydd.

Isod mae dyfyniadau o rai o'r diweddariadau cynnydd hyn.

'... Fe wnaeth hi ailysgrifennu'r stori mewn ffordd fywiog a llawn dychymyg, gan ddangos ei hyder cynyddol gyda llythrennedd. Dylai gofio lle i ddefnyddio atalnodau llawn a defnyddio dulliau fel Map Sain i'w helpu i sillafu geiriau anodd.

'.... Mae hi'n magu hyder gyda rhifau ac yn dangos gwydnwch i ddod o hyd i atebion i dasgau datrys problemau.

'... Mae hi'n mwynhau chwarae dychmygus ac yn hapus i arwain ei dysgu ei hun wrth chwarae rôl. Yn ddiweddar, cafodd ei gweld yn chwarae 'dringo creigiau' yn y goedwig, gan egluro, 'rydyn ni'n dringo creigiau ar uchder o 25,000 metr!'

'... mae hi'n ddysgwr bywiog, uchelgeisiol... mae hi'n cymryd rhan yn frwdfrydig gyda drama, datrys problemau a gweithgareddau ysgrifenedig i ymgysylltu'n llawn â'r stori.

'... mae e wedi dangos hyder wrth siarad mewn trafodaethau grŵp, gan siarad ag aeddfedrwydd cynyddol am wahanol fathau o gydberthynas ... gweithiodd ar y cyd yn ei grŵp i ymchwilio i wers ar gyfer Blwyddyn 5 ar ddeiet iach a'i chynllunio, gan greu adnoddau a chyflwyniad a addaswyd yn dda ar gyfer y grŵp oedran; fodd bynnag, mae angen iddo wneud mwy o baratoi ar sut y bydd yn cyflwyno yn y dyfodol, er mwyn sicrhau ei fod yn fwy hyderus ac yn cymryd rhan lawn.

'... mae ganddo synnwyr digrifwch mor hyfryd... mae'n barod i roi cynnig ar bethau. Bydd ffocws parhaus ac osgoi pethau sy'n tynnu ei sylw yn yr ystafell ddosbarth yn sicrhau ei fod yn parhau i wneud cynnydd da... '

## Adborth

Mae'r rhieni/gofalwyr yn fodlon â'r newidiadau i'r broses adrodd ac maen nhw'n teimlo eu bod yn gwybod mwy am sut mae eu plentyn yn dod yn ei flaen gydol y flwyddyn. Maen nhw'n teimlo bod sylwadau ar gynnydd a chmau nesaf yn golygu y gallan nhw gyfrannu mwy at ddysgu eu plentyn a bod y dull personol ac unigol yn golygu eu bod yn adnabod eu plentyn yn yr adroddiad.

Mae hwn yn sylfaen cadarn ar gyfer parhau i weithio gyda'n gilydd yn ystod cyfnod o ddefnyddio dysgu wyneb yn wyneb ac o bell lle gall cyfathrebu ac ymgysylltu effeithiol gyda rhieni/gofalwyr helpu i bontio'r dysgu hwn a chynorthwyo dysgwyr i gymryd mwy o berchnogaeth. Mae'r broses yn creu darlun o gynnydd ar gyfer pob plentyn dros amser, gan gyfrannu at ei stori. Mae cyfathrebu rheolaidd hefyd yn arwain at lai o bryder a mwy o dawelwch meddwl i rieni/gofalwyr a dysgwyr ac yn caniatáu i'r rhai sydd angen mwy o gymorth ddod aton ni yn haws.

## Cynnydd a phartneriaeth, lles a llwyth gwaith

Mae'r cylch adrodd ffurfiannol wedi gwella mwy na'r adroddiadau yn unig. Mae'r berthynas â rhieni/gofalwyr wedi gwella gan eu bod yn gwerthfawrogi'r dull amserol, unigol a gonest o ganolbwyntio ar gefnogi datblygiad a chynnydd.

Gallai ymddangos fel llawer mwy o waith, ond gan fod yr elfen adrodd bellach yn rhan annatod o ddysgu, addysgu ac asesu, yn hytrach nag un dasg fawr ar ddiwedd y flwyddyn, mae'n golygu llai o waith ychwanegol mewn gwirionedd. Yn syml, mae'n adlewyrchiad o arsylwadau staff, dulliau ffurfiannol ac olrhain ac yn rhan o'r cylch

cynllunio ar gyfer dysgu. Er nad yw'r adroddiadau'n gyfrolau enfawr o wybodaeth, maen nhw'n werthusiadau ymarferol a chryno o gynnydd a thargedau a osodwyd. Mae hyn yn arwain at lwyth gwaith y gellir ymdopi ag ef a gweithgarwch pwrpasol i athrawon. Mae dysgu proffesiynol wedi bod yn rhan bwysig o'r broses gan mai trafodaeth ysgol gyfan oedd pob cam o'r newid, gan feddwl am ystyriaethau allweddol, mireinio a dysgu gan ysgolion eraill.

## Symud ymlaen

Yn ystod y cyfyngiadau symud, mae'n bwysig helpu rhieni/gofalwyr i ddeall y ffordd orau o gefnogi'r dysgu gartref. Mae'r trefniadau adrodd rheolaidd gydol y flwyddyn hyd at y pwynt hwnnw yn golygu bod yr wybodaeth ddiweddaraf gan rieni/gofalwyr am gynnydd ac anghenion eu plentyn yn barod.

Ar yr adeg ansicr hon, pan nad ydyn ni'n wybod yn llwyr eto sut beth fydd y flwyddyn academiaidd newydd, bydd adrodd fel hyn yn cefnogi dull dysgu cynhwysol. Wrth i ysgolion ddechrau ailagor i fwy o ddysgwyr, bydd adrodd yn rheolaidd gydol y flwyddyn yn hwyluso dull mwy hyblyg, gan ein galluogi i weithio'n agos gyda'n dysgwyr yn ystod ein hamser yn yr ysgol a'n teuluoedd pan rydyn ni gartref. Bydd y broses o werthuso'r dysgu yn cael ei rhannu'n rheolaidd, gan gynorthwyo rhieni/gofalwyr i ddeall y dysgu y gofynnir iddyn nhw ei gefnogi a pham mae'n bwysig.

Gwaith sy'n mynd rhagddo yw'r fformat adrodd ei hun o hyd, a bydd gweithio mewn ffordd gyfunol yn darparu cyfrwng diddorol ac ategol ar gyfer gwerthuso effaith y dull gweithredu a'i fireinio ymhellach. Bydd gweithio gyda grwpiau llai o blant yn ein galluogi ni i ddechrau eu cynnwys yn y broses hyd yn oed yn fwy, gan greu cymunedau dysgu, annog cyfranogiad mwy gweithredol, codi eu disgwyliadau eu hunain a chynyddu hunan-ffeithiolrwydd. Ar ben hynny, pan fo cymaint o amser wedi'i dreulio'n datblygu sgiliau digidol staff a dysgwyr, gallwn ni ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd arloesol i wella'r profiad adrodd ffurfiannol. Bydd defnyddio apiau fel Flipgrid yn caniatáu i ddysgwyr gofnodi eu sylwadau, i athrawon roi adborth a chymorth ac i rieni/gofalwyr ymuno â thrafodaethau sydd nid yn unig yn edrych ar gynnydd ond hefyd yn canfod beth sy'n mynd yn dda a beth sydd angen ei newid.

[hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cefnogi-cynnydd-dysgwyr-canllawiau-asesu/#communicating-and-engaging-with-parents/carers](https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/cefnogi-cynnydd-dysgwyr-canllawiau-asesu/#communicating-and-engaging-with-parents/carers)